Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Corfforaethol

Crynodeb
Ein pwrpas a'n cyfeiriad 2011 i 2014

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Croeso i'r crynodeb o *Ein Pwrpas a'n Cyfeiriad*, sef cynllun corfforaethol y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer 2011-14. Mae gennym gynllun corfforaethol treigl a adolygir gennym bob blwyddyn: dyma ein diweddariad ar gyfer 2011/12. Gobeithio y bydd o ddiddordeb ac o ddefnydd i chi.

Ein pwrpas

Ni yw Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym hefyd yn rhan o Gomisiwn Coedwigaeth y DU. Rydym yn gweithredu drwy:

- Lunio polisïau am goedwigaeth a chynghori Llywodraeth y Cynulliad (LlCC) am faterion sy'n ymwneud â choedwigaeth
- Rheoli Ystad Coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad (AGWE) - 38% o goetiroedd Cymru
- Gweinyddu grantiau ar gyfer cynllun creu coetiroedd Glastir a pharhau i roi cymorth grantiau drwy *Goetiroedd Gwell i Gymru* (CGG) a ddaeth i ben i ymgeiswyr newydd ddiwedd 2010. Mae gennym rôl reolaethol hefyd sy'n cynnwys cyflwyno trwyddedau i dorri coed

Rydym yn gweithio ar draws AGWE a choetiroedd sy'n berchen i eraill. **Coedwig Genedlaethol Cymru** yw ei enw ac mae'n cynnwys pob coeden a choetir yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

Coetiroedd yw 14.3% o arwyneb tiroedd Cymru.
Ceir dau brif fath:

- Coetir cynhenid – coetiroedd bychain yn aml ar diroedd fferm
- Coetiroedd conwydd – a blannwyd yn bennaf yn yr 20fed ganrif

Dangosodd arolwg newydd, sef Rhestr Genedlaethol y Coedwigoedd, a gyhoeddwyd yn Mawrth 2011 fod na amcangyfrif oddeutu 303,500 ha o goetiroedd yng Nghymru. Mae hyn yn uwch na'r amcangyfrifon blaenorol.

Yn 2011/12, byddwn yn derbyn £21.4m oddi wrth LlCC. Bydd yr arian hwn a'r incwm y byddwn yn ei greu yn ein cynorthwyo i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn. Mae gennym 378 o weithwyr ledled Cymru. Mae ein swyddfa genedlaethol yn adeilad Swyddfeydd LlCC yn Aberystwyth.

Rydym wedi ymrwymo i degwch a chydnabod cydraddoldeb ac amrywiaeth – ar gyfer ein staff ein hunain a'r cyhoedd rydym yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer.

Ein cyfeiriad

Arweinir ein gwaith gan *Goetiroedd i Gymru*. Dyma strategaeth 50 mlynedd LlCC ar gyfer coetiroedd a choed a gafodd ei diwygio a'i hail-lansio ym mis Mawrth 2009. Rydym hefyd yn cyfrannu at dargedau LlCC ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae gan goetiroedd a choed rôl bwysig yn y maes hwn yn ogystal ag mewn meysydd gwaith eraill LlCC fel iechyd ac addysg.

Rydym yn canolbwyntio ar naw maes gwaith yn benodol ac rydym yn bwriadu eu defnyddio i fonitro ein perfformiad.

Rydym am gynyddu/gwella yn y meysydd canlynol:

- Coetiroedd a reolir yn gynaliadwy
- Creu coetiroedd
- Coetiroedd a reolir heb dorri rhannau helaeth ohonynt
- Amrywiaeth rhywogaethau coed mewn coetiroedd nad ydynt yn gynhenid
- Lleddfu effaith newid yn yr hinsawdd
- Cysylltiad y cyhoedd â choetiroedd
- Lefel y mentrau sy'n ymwneud â choetiroedd a phren
- Faint o goetiroedd cynhenid sydd yng Nghymru
- Cyflwr coetiroedd cynhenid

Mae ein gwaith yn cynaeafu ac yn marchnata pren a gwarchod safleoedd at ddibenion cadwraeth, yn ogystal â rhoi cyngor a grantiau, i gyd yn cyfrannu at y naw maes hyn.

Y llynedd, ar gais ein Gweinidog, paratowyd astudiaeth gennym a amlinellodd y dewisiadau ar gyfer rôl AGWE nawr ac yn y dyfodol. Mynegodd y Gweinidog ymrwymiad cadarn y byddai'r cyhoedd yn parhau i fod yn berchen ar AGWE. Gofynnodd i ni hefyd fynd ati i geisio cyfleoedd masnachol ar gyfer AGWE a allai roi rhagor o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Ein pwrpas a'n cyfeiriad: crynodeb

Mae pum thema yng *Nghoetiroedd i Gymru:* mae'r thema gyntaf, 'coetiroedd a choed Cymru' yn elfen graidd o'n gwaith ac, yn amlwg, yn rhan annatod o bopeth rydym yn ei wneud. Dyma'r pedair thema arall:

- Ymateb i newid yn yr hinsawdd
- Coetiroedd i bobl
- Sector coedwigoedd cystadleuol ac integredig
- Ansawdd amgylcheddol

Mae bron popeth rydym yn ei wneud yn gysylltiedig â sawl un o'r themâu hyn. Felly, rydym wedi creu 10 rhaglen gorfforaethol ar gyfer ein gwaith sy'n cyd-fynd â meysydd gwaith ein staff i ddangos sut mae ein gwaith 'ar lawr gwlad' yn cyfrannu at *Goetiroedd i Gymru,* fel mae'r diagram ar y dde yn ei ddangos.

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer *Coetiroedd i Gymru* ym mis Mawrth 2010. Rydym yn arwain neu'n cyfrannu at dros 50 o'r 83 cam sydd yn y cynllun gweithredu hwn ac rydym wedi'u hymgorffori yn ein cynllun corfforaethol.

Mae gweddill y crynodeb yn amlinellu ein camau yn erbyn ein 10 rhaglen gorfforaethol. Mae'r rhain wedi'u trefnu yn unol â phob thema graidd *Coetiroedd i Gymru* ac mae'n sôn rhagor am ein harian a sut rydym yn monitro ein gwaith.

Diagram o'n Hamcanion a'n Rhaglenni Corfforaethol



Mae i bob rhaglen amcan 'cartref' (a ddangosir fel lliw tywyllach) ond maent hwy hefyd yn cyfrannu i amcanion eraill (a ddangosir mewn lliw goleuach)

Ymateb i newid yn yr hinsawdd

Yn ogystal â gofalu bod coetiroedd a choed yn gallu ymdopi mewn hinsawdd sy'n newid, maent yn bwysig er mwyn lleihau faint o garbon rydym yn ei ddefnyddio.

Mae tanwydd coed yn ffynhonnell ynni nad yw'n defnyddio llawer o garbon cyn belled â bod coed yn cael eu plannu i gymryd lle'r coed blaenorol. O bryd i'w gilydd, gall coed a ddefnyddir yn lle deunyddiau fel concrid neu haearn gloi carbon am gannoedd o flynyddoedd.

Rhaglen Gorfforaethol 1. Rheoli coetiroedd mwy amrywiol

Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy, creu coetiroedd mwy amrywiol a chreu rhagor o goetiroedd; dyma ein rhaglen fwyaf.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £11.6m Incwm £10.3m

Y llynedd paratowyd arweiniad gennym am wneud ein coetiroedd yn fwy amrywiol drwy gynyddu amrywiaeth y gwahanol rywogaethau coed rydym yn eu plannu. Caewyd BWW i ymgeiswyr newydd a lansiwyd cynllun grant Creu Coetiroedd newydd Glastir.

Eleni byddwn yn:

- Parhau i gyflwyno tystysgrifau ar gyfer AGWE i gadarnhau bod y coetiroedd hyn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
- Marchnata 770,000m^3 o bren o AGWE, gan gynyddu, teneuo a gostwng y rhannau helaeth a dorrir
- Symud tuag at gyflawni targed Llywodraeth y Cynulliad i greu 100,000 hectar o goetiroedd newydd dros yr 30 mlynedd nesaf drwy Gynllun Creu Coetiroedd Glastir
- Rhoi ein harweiniad gweithredol ar waith ar gyfer amrywiaeth rhywogaethau coed wrth ailblannu ar AGWE; annog amrywiaeth ehangach o rywogaethau coed mewn coetiroedd sydd newydd eu plannu drwy Gynllun Creu Coetiroedd Glastir
- Cyhoeddi rhagor o arweiniad am gynyddu amrywiaeth coetiroedd gan ganolbwyntio ar dorri llai o goed a chynyddu amrywiaeth genetig
- Cefnogi'r rhai eraill sy'n berchen ar goetiroedd i'w rheoli'n gynaliadwy yn unol â Safon Coedwigaeth y DU drwy reoli proses grantiau BWW a datblygu cynllun rheoli coetiroedd Glastir
- Parhau i gynnal cynllun Plant! – mae'r cynllun hwn gan LlCC yn cynnwys plannu coeden ar gyfer pob babi newydd a phlant a fabwysiedir yng Nghymru – mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Coetiroedd ac eraill

Rhaglen Gorfforaethol 2. Diogelu coed a'u hiechyd

Diogelu coed a choetiroedd rhag plâu a heintiau fel *Phytophthora ramorum*, yn ogystal â rhywogaethau ymledol fel rhododendron ac anifeiliaid fel ceirw sy'n pori.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £2.9m Incwm £0.1m

Y llynedd fe dorrwyd 800 hectar o goed llarwydd gennym ar yr AGWE yn ne Cymru er mwyn rheoli achos o Phytophthora ramorum. Dyma haint nodedig sydd wedi heintio coed yng Nghymru.

Eleni byddwn yn:

- Parhau i arwain y gwaith o reoli'r achos o *Phytophthora ramorum* yng Nghymru
- Diogelu AGWE rhag plâu, heintiau ac anifeiliaid sy'n pori
- Cydweithio â Phartneriaeth Menter Ceirw Cymry i weithredu *Strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt* LlCC a lansiwyd ym mis Chwefror 2011, a chwblhau ei gynllun gweithredu cysylltiedig
- Cyflawni ein dyletswyddau eraill ym meysydd iechyd planhigion, archwilio achosion o blâu a heintiau a sicrhau bod cynlluniau rheoli ar waith

Rhaglen Gorfforaethol 3. Ynni adnewyddadwy

Cynlluniau coed tanwydd, gwynt cymunedol a phŵer dŵr a'r Cynllun Ynni Gwynt sy'n cyfrannu at bolisïau ynni adnewyddadwy Llywodraeth y Cynulliad.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £4.2m Incwm £5.0m (Mae incwm o'r Cynllun Ynni Gwynt yn talu am y costau; mae £0.3m yn rhagor o incwm ynni gwynt yn cael ei ddychwelyd i LlCC. Cynhyrchir rhagor o incwm drwy werthu biomas, er enghraifft)

Y llynedd cafodd oddeutu 100,000m^3 o goed tanwydd a biomas ei farchnata gennym, gan gynnwys 16,000m^3 o ddeunyddiau fel malurion na ellir eu darogan.

Eleni byddwn yn:

- Dechrau paratoi safleoedd mewn coedwigoedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt yn ne Cymru (yn Ardal Chwilio Strategol:F) yn ogystal ag amharu cyn lleied â phosibl ar ein gallu i reoli AGWE yn unol â *Choetiroedd i Gymru*
- Cynnig oddeutu 100,000m^3 o danwydd coed a chynnyrch biomas i'w werthu
- Dechrau datblygu prosiectau pŵer dŵr, pŵer yr haul a chynnyrch ynni cymunedol ar AGWE
- Rheoli prosiect Cynllun Busnes Ynni Coed 2 i gynorthwyo datblygiad prosiectau tanwydd coed
- Cwblhau'r gwaith o osod systemau gwresogi biodanwydd yn 3 o'n swyddfeydd

Coetiroedd i bobl

Mae coetiroedd ar gyfer pobl – cyfle i gymunedau ymwneud â'u coetiroedd lleol, datblygu a chynorthwyo busnesau lleol, ac at ddibenion dysgu a hamdden.

Boed yn mynd am dro yn hamddenol neu'n chwysu chwartiau ar feic mynydd, mae mynd o gwmpas coetir yn gallu cynnig manteision o bwys i iechyd a lles. Rydym am fod yn gynhwysol er mwyn i bawb, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi ymweld â choetiroedd o'r blaen, allu cymryd rhan a manteisio ar beth sydd ar gael.

Rhaglen Gorfforaethol 4. Cynnwys y cyhoedd a busnesau

Cynnwys y gymuned – o gael llais am sut i ddatblygu coetiroedd i sicrhau bod cymunedau yn rheoli ac yn berchen ar goetiroedd – datblygu busnesau a chreu swyddi.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £1.7m Incwm £0.4m

Y llynedd datblygwyd Fframwaith Cynnwys y Cyhoedd a Mentrau Cymdeithasol gennym i hyrwyddo a hwyluso gweithgareddau ar AGWE.

Eleni byddwn yn:

- Cyflwyno'r cynllun coetiroedd ym Mlaenau'r Cymoedd drwy waith ein swyddog sy'n gyfrifol am brosiect Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd
- O'n profiad gyda phrosiect Blaenau'r Cymoedd, dechrau gweithio yn Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin i ddatblygu dull partneriaeth o reoli coetiroedd a choed er mwyn adfywio
- Cynorthwyo sefydliadau coedwigoedd cymunedol ac adolygu effeithiolrwydd y cymorth a roddir
- Hyrwyddo a gweithredu ein Fframwaith Cynnwys y Cyhoedd a Mentrau Cymdeithasol i alluogi mwy o bobl i ymwneud â'r coetiroedd a reolir gennym
- Cydweithio â thîm prosiect Glastir fel bod grantiau ar gael i alluogi'r cyhoedd i ddefnyddio coetiroedd penodol y tu allan i AGWE
- Meithrin sut rydym yn helpu mentrau bach a chanolig i ddefnyddio coetiroedd yn eu busnesau

Rhaglen Gorfforaethol 5. Hamdden a mynediad

Llwybrau cerdded, rhai o'r lleoedd gorau yn y byd ar gyfer beicio mynydd, cyfeiriannu, ralïo, marchogaeth, heddwch a llonyddwch cefn gwlad…mae gan goetiroedd Cymru rywbeth i'w gynnig i'r hen a'r ifanc fel ei gilydd.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £4.0m Incwm £1.0m

Y llynedd cawsom arian ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhan o *Ganolfannau Rhagoriaeth ar gyfer Beicio.*

Ein pwrpas a'n cyfeiriad: crynodeb

Mae'n cynnwys cyfleusterau newydd a gwell ym Mharc Coedwig Coed y Brenin a llwybrau beicio mynydd newydd ym Mharc Coedwig Afan. Cafodd ein Canolfan Ymwelwyr yng Ngarwnant ym Mannau Brycheiniog ei hail-agor gennym hefyd ar ei newydd wedd.

Eleni byddwn yn:

- Cynnal safleoedd hamdden ar AGWE hyd at safon uchel
- Adolygu ein darpariaeth hamdden ar AGWE ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gan ystyried twristiaeth gynaliadwy
- Cydweithio â Gwyliau Coedwigoedd i symud datblygiadau newydd ymlaen
- Hyrwyddo cyfleoedd hamdden mewn modd cynhwysol ac annog amrywiaeth eang o bobl i ymweld â choetiroedd a mwynhau eu manteision
- Ar ôl paratoi ein cynllun gweithgarwch ar gyfer beicio oddi ar y ffyrdd yn 2010/11, datblygu rhagor o gynlluniau i gyfeirio'r cyfleoedd hamdden a mynediad a gynigir ar AGWE. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud â cheffylau.
- Datblygu partneriaethau i hyrwyddo sut mae defnyddio coetiroedd a choed ar gyfer hamdden o fantais i iechyd a lles

Rhaglen Gorfforaethol 6. Dysgu mewn coetiroedd a sgiliau'r sector

Dysgu mewn coetiroedd ac amdanynt; yr Ysgol Goedwig, Menter Addysg Coedwigoedd (FEI); meithrin sgiliau yn sector y coedwigoedd gan gynnwys prentisiaethau a llwybrau gyrfaol; gwirfoddoli.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £1.6m Incwm: £0.02m

Y llynedd paratowyd ymweliadau â choedwigoedd gennym ar gyfer dros 16,000 o blant yn ogystal â chynorthwyo 600 o weithwyr addysg proffesiynol.

Eleni byddwn yn:

- Cynnig ymweliadau addysgol i blant mewn coetiroedd yng Nghymru ac yn rhoi hyfforddiant i weithwyr addysg proffesiynol yn eu hannog i ddefnyddio coetiroedd yn eu gwaith
- Parhau i gefnogi FEI a'i grwpiau cysylltiedig
- Cydweithio â Lantra, LICC ac eraill i feithrin dull o ddatblygu sgiliau ar gyfer sector y coedwigoedd
- Cynnal ein Cynhadledd Coetiroedd ar gyfer Dysgu flynyddol sydd eleni'n cynnwys thema yrfaol i bobl ifanc yn eu harddegau
- Rhoi cynnig ar ein fframwaith newydd ar gyfer cynnig profiad gwaith ar AGWE
- Cyhoeddi a dosbarthu ein canllawiau ar gyfer gwirfoddoli a gwirfoddolwyr ar AGWE

Rhaglen Gorfforaethol 7. Coetiroedd a choed trefol

Manteision ein coed mewn trefi a dinasoedd – oeri, cysgodi, draenio gwell a chyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £0.3m

Y llynedd comisiynwyd Arolwg o Goed Trefol gennym i bennu sylfaen ar gyfer faint o goed sydd mewn ardaloedd trefol yng Nghymru.

Eleni byddwn yn:

- Archwilio ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer coed mewn cynlluniau adfywio canol trefi a datblygiadau trefol a'u manteision drwy gydweithio â phartneriaid Blaenau'r Cymoedd
- Gan adeiladau ar ein gwaith ym Mlaenau'r Cymoedd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, byddwn yn ymestyn ein gwaith i Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin a datblygu ein gwaith parthed coetiroedd a choed trefol ymhellach
- Ceisio amlygu cyfleoedd i ariannu prosiectau coetiroedd trefol drwy bartneriaethau

Sector coedwigoedd cystadleuol ac integredig

Mae pren yn bwysig fel adnodd adnewyddadwy ac oherwydd ei gyfraniad tuag at economi Cymru.

Bydd y gwaith ar draws ein rhaglenni yn helpu LICC i gyflawni ei hamcan o gynnal y pren a gynhyrchir ar hyn o bryd ar draws y wlad yn ogystal ag amrywio coetiroedd nad ydynt yn gynhenid yng Nghymru.

Mae sawl un o'r rhaglenni a'r camau eraill yn ein rhaglen hefyd yn cyfrannu at dyfu, cynnal a marchnata pren – rheoli coetiroedd mwy amrywiol, ynni adnewyddadwy, cynnwys y cyhoedd a mentrau, dysgu mewn coetiroedd a sgiliau'r sector yn ogystal ag adfer a rheoli coetiroedd cynhenid a chynefinoedd agored.

Ein pwrpas a'n cyfeiriad: crynodeb

Rhaglen Gorfforaethol 8. Hyrwyddo pren a datblygu sector y coedwigoedd

Pren fel adnodd adnewyddadwy allweddol, datblygu sgiliau'r sector, gwell cadwyni cyflenwi a sut y prosesir pren o Gymru yng Nghymru.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £1.0m

Y llynedd cwblhawyd a chyhoeddwyd gennym fersiwn diwygiedig o'n Strategaeth Marchnata Pren ar gyfer 2011–16.

Eleni byddwn yn:

- Darparu rhagolygon dibynadwy ar gyfer faint o bren sydd ar AGWE ac annog perchnogion coetiroedd eraill i wneud yr un fath er mwyn i fusnesau allu cynllunio eu gwaith
- Cynorthwyo gwaith datblygu teclyn gwerthuso pren sy'n mynd rhagddo a pharatoi hierarchaeth o ddefnydd i arwain y diwydiant

- Hyrwyddo gwerth pren coetiroedd bychain ar ffermydd i'w hannog i'w rheoli
- Datblygu prosiect ADEILADU'R UE, os caiff ei gymeradwyo, sy'n ystyried arferion gorau ar gyfer adeiladu drwy ddefnyddio pren mewn adeiladau carbon isel neu ddi-garbon



Ansawdd amgylcheddol

Gall coetiroedd iach sy'n gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd gynnig amrywiaeth o fanteision i ni - fe'u gelwir yn wasanaethau ecosystem - o bren i gyfleoedd hamdden, bioamrywiaeth, cadw carbon a diogelu dŵr a phridd.

Bydd rheoli ein coetiroedd cynhenid ac 'arbennig' mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), safleoedd o bwysigrwydd archeolegol a choetiroedd a choed yn y dirwedd ehangach yn sicrhau bod yr asedau na ellir eu hadnewyddu yn cael eu gwarchod ac o les i Gymru nawr ac yn y dyfodol.

Rhaglen Gorfforaethol 9. Adfer a rheoli coetiroedd cynhenid a chynefinoedd agored

Adfer planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PSCH), rheoli coetiroedd cynhenid, adfer cynefinoedd agored (lle ceir rhagor o fanteision amgylcheddol os yw coed yn cael eu symud yn lle gadael yr ardal yn goediog).

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £5.4m Incwm £1.3m

Y llynedd buom yn cydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru i gwblhau'r prosiect i ddiweddaru Rhestr y Coetiroedd Hynafol yng Nghymru.

Eleni byddwn yn:

- Parhau â phrosiect blaenoriaethu adfer PSCH ar gyfer AGWE
- Mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o Restr y Coetiroedd Hynafol yng Nghymru a rhoi arweiniad ar gyfer ei ddefnyddio
- Cydweithio â Grŵp Ecosystemau Coetiroedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gwblhau'r prosiect er mwyn amlygu blaenoriaethau ar gyfer creu, ehangu a rheoli coetiroedd cynhenid
- Paratoi arweiniad ar gyfer rheoli coetiroedd cynhenid yng Nghymru
- Parhau i wella ein gwybodaeth am faint o goetiroedd cynhenid sydd yng Nghymru a beth yw eu cyflwr yn ogystal â bodloni ein gofynion cofnodi ar gyfer Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
- Cynnal prosiect i amlygu blaenoriaethau ar gyfer adfer cynefinoedd mawn ledled Cymru drwy gydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Amgylchedd Cymru a gwyddonwyr LlCC

Rhaglen Gorfforaethol 10. Amrywiaeth, etifeddiaeth a thirwedd safleoedd

Rheoli a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth, rheoli safleoedd dynodedig, gofalu am dreftadaeth hynafol a diwylliannol sy'n gysylltiedig â choetiroedd a rheoli coetiroedd y dirwedd ehangach yn briodol.

Ar gyfer 2011/12: Gwariant £1.6m Incwm £0.04m

Y llynedd cyhoeddwyd gennym arweiniad gwell yn ogystal â datblygu rhaglenni i gynorthwyo Rhywogaethau a Ddiogelir yn Ewrop mewn coetiroedd.

Eleni byddwn yn:

- Parhau i weithredu Fframwaith Bioamrywiaeth LlCC
- Parhau i reoli bioamrywiaeth yn gadarnhaol er lles rhywogaethau a ddiogelir ac sy'n flaenoriaeth ar AGWE ac annog yr un dull ar gyfer coetiroedd eraill
- Sicrhau bod pob safle dynodedig ar AGWE yn cael ei reoli'n dda a bod cynlluniau rheoli wedi'u sefydlu. Annog yr un dull ar gyfer coetiroedd eraill
- Parhau i ddylunio tirweddau'n dda ar AGWE
- Cyfrannu at reoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a thirweddau hanesyddol yn ogystal â Henebion Cofrestredig (HC) a safleoedd eraill o bwysigrwydd archeolegol

Ein pwrpas a'n cyfeiriad: crynodeb

Ein sefyllfa ariannol

Dyma ein sefyllfa ariannol cyffredinol ar gyfer 2011/12

	Gwariant £M	Incwm £M
Rhaglenni Corfforaethol	34.3	18.2
Cyfalaf	1.7	1.6
Costau rheoli tiroedd (Rhwymedigaethau eraill y Cynulliad parthed coetiroedd)	6.1	0.9
Arian gan LICC		21.4
Cyfanswm	42.1	42.1

Mae costau rheoli tiroedd (rhwymedigaethau eraill y Cynulliad parthed coetiroedd) yn ymwneud â'r gweithgareddau hynny nad ydynt yn rhan o'n rhaglenni corfforaethol ond sy'n gorfod cael eu gwneud gennym fel rheolwyr tiroedd – fel cynllunio ardaloedd coedwigoedd, ffensio, clirio sbwriel, cynnal eiddo a gwaith yn ymwneud â thipiau sbwriel.

Mesur ein perfformiad

Mae ein naw mesurydd perfformiad yn adlewyrchu'r dangosyddion yng *Nghoetiroedd i Gymru* ac felly'n dangos yn uniongyrchol sut rydym yn cyfrannu at gyflawni amcanion y strategaeth hon.

Mae pob un o'r mesuryddion hyn yn rhai hirdymor ond gallwn fonitro cynnydd drwy dargedau tymor byr (3 blynedd) a chanolig (15 mlynedd).

Mae'r mesuryddion hyn yn ymwneud â'r meysydd gwaith a restrwyd gennym ar ddechrau'r llyfryn hwn, sef cynyddu/gwella:

- Coetiroedd a reolir yn gynaliadwy
- Creu coetiroedd
- Coetiroedd a reolir heb dorri rhannau helaeth ohonynt
- Amrywiaeth rhywogaethau coed mewn coetiroedd nad ydynt yn gynhenid
- Lleddfu effaith newid yn yr hinsawdd
- Cysylltiad y cyhoedd â choetiroedd
- Lefel y mentrau sy'n ymwneud â choetiroedd a phren
- Faint o goetiroedd cynhenid sydd yng Nghymru
- Cyflwr coetiroedd cynhenid

Mae gennym gyfres o fesuryddion busnes hefyd sy'n edrych ar sut rydym yn rheoli ac yn datblygu staff ac effeithlonrwydd ein sefydliad.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bodlonrwydd ac amrywiaeth staff
- Buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiadau a dargedwyd a'r nifer sy'n cymryd rhan
- Penodi staff â'r sgiliau priodol ar gyfer swyddi lle mae angen siarad Cymraeg
- Cyfrifon ac arian nad ydyw ar y llinell sylfaen
- Datganiadau i'w wasg a ddefnyddir gan y cyfryngau
- Cynaliadwyedd busnes – ein mesuryddion 'Ffyrdd Mwy Gwyrdd' – defnyddio llai o ynni, y staff yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon o ganlyniad i deithio a gwastraff, ac ailgylchu rhagor

Er bod gennym gynllun corfforaethol 'treigl', mae ein targedau tair blynedd gyfredol ar gyfer mesur perfformiad a busnes yn berthnasol ar gyfer rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2012. Eleni, byddwn yn gosod targedau ar gyfer y 3 blynedd nesaf 2012/13 - 2014/15.

Bydd ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf mewn cysylltiad â'r targedau.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Corfforaethol

dylunio: www.fbagroup.co.uk FCW344 04/11

Gellir cael mwy o fanylion o'n gwaith yn ein cynllun corfforaethol llawn 'Ein pwrpas a'n cyfeiriad' sydd ar gael ar ein gwefan yn: www.forestry.gov.uk

Gallwch gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras ac mewn ffurfiau eraill (e.e. Braille, tâp sain) drwy gysylltu â'r Comisiwn Coedwigaeth ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost isod:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Ffôn: 0300 068 0300 Ffacs: 0300 068 0301
E-bost: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk

(Bydd pris galwadau i rifau 0300 ar gyfradd 'Lo-call', bydd hyn yr un pris waeth o ble bynnag rydych yn ffonio.)

Gallwch gysylltu â ni hefyd am wybodaeth am gyfieithiadau, neu drefnu i swyddog eich ffonio er mwyn esbonio unrhyw ran(nau) o'r cyhoeddiad hwn y dymunech gael eglurhad arnynt.

Lluniau: Mae'r holl luniau yn Hawlfraint y Goron o Lyfrgell Luniau'r Comisiwn Coedwigaeth oni bai y nodir fel arall.

Dyddiad cyhoeddi Ebrill 2011

Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir gan ddefnyddio 50% ffibr adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Forest Stewardship Council SGS-FM/COC-000358
© 1996 Forest Stewardship Council AC